

Disgrifiad Swydd: Uwch-ddarlithydd (Uwch-addysgwr Efelychu Cyfrwng Cymraeg) – Llwybr Addysg ac Ymchwil (Addysg)

Cyfadrn:	Y Gyfadrn Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd (FMHLS)
Adran/Pwnc:	Y Ganolfan Efelychu a Dysgu Ymdrochol (SUSIM)
Cyflog:	Gradd 9: £47,389 i £56,535 y flwyddyn, gyda buddion USS
Oriau gwaith:	Amser llawn; fodd bynnag, caiff ceisiadau am weithio'n rhan-amser eu hystyried
Nifer y swyddi:	1
Contract:	Swydd cyfnod penodol am dair blynedd
Lleoliad:	Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton yn bennaf, ond bydd hi'n ofynnol gweithio ar draws safleoedd SUSIM, gan gynnwys Campws Parc Dewi Sant, ac ar safleoedd partneriaid y GIG ledled Cymru yn ôl yr angen.

Llwybrau Gyrfa Academaidd	Mae'r cynllun Llwybrau Gyrfa Academaidd (LGA) wedi'i gynllunio i sicrhau bod cryfderau academaidd ar draws ystod eang o weithgareddau, megis ymchwil, addysgu, profiad myfyrwyr, arloesi, ymgysylltu, menter, arweinyddiaeth, rheoli a chydweithrediad ehangach, i gyd yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo'n briodol. Mae pedwar llwybr gyrfa: • Addysg • Addysg ac Ymchwil (Addysg) • Addysg ac Ymchwil (Ymchwil) • Ymchwil I gael rhagor o wybodaeth am y Llwybrau Gyrfa Academaidd, cliciwch yma. Mae meini prawf pob llwybr yn darparu lefelau perfformiad dangosol ar gyfer staff academaidd ar bob lefel, o Ddarlithydd i Athro, a ddefnyddir drwy gydol y broses recriwtio. Caiff tystiolaeth a ddarperir yn erbyn pob maen prawf ei hystyried yng ngoleuni cam eich gyrfa, eich oriau gwaith, eich amgylchiadau unigol neu weithgareddau cysylltiedig â gwaith y tu allan i'r byd academaidd, megis mewn diwydiant neu leoliad clinigol. Mae croeso mawr i chi ddarparu cyd-destun ynghylch unrhyw amgylchiadau unigol perthnasol, megis seibiannau gyrfa, cyfnodau estynedig o absenoldeb neu gyfrifoldebau gofalu, er enghraifft, a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ddatblygiad eich gyrfa.
Prif Ddiben y Swydd	1. Gan weithio mewn rhaglen a arweinir gan yr Athro Addysg a Chanolfannau Efelychu, bydd deiliad y swydd yn cydweithio ag aelodau tîm SUSIM, timau'r Gyfadrn, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, AaGIC, partneriaid y GIG a rhanddeiliaid eraill i gyd-gynhyrchu addysg efelychu, ysgolheictod a chanlyniadau gwella gofal iechyd o safon uchel. 2. <u>Ymchwil</u>: Gallu amlwg i gynnal a lledaenu neu gyhoeddi ymchwil wreiddiol o safon uchel sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at y maes 3. <u>Arloesi, Ymgysylltu a Menter</u>: Cyfraniadau sylweddol, cynyddol sy'n cael effaith ym maes arloesi, ymgysylltu neu fenter 4. <u>Cydweithrediad, Arweinyddiaeth, Rheoli a Gwasanaeth</u>: Yn gallu cyfrannu'n foddhaol ar draws amrywiaeth o rolau gweinyddol sy'n ymwneud â gweithgarwch academaidd Addysg: Arwain y gwaith o gynllunio, cyflwyno, asesu a gwerthuso addysg seiliedig ar efelychu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan gynnwys efelychu un proffesiwn a rhyngbroffesiynol, profion OSCE a'r Cynnig Rhagweithiol.

Dyletswyddau Cyffredinol	5. Cydlynu'r gwaith o gyflawni'r nodau a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yng nghynllun gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) drwy gydol y swydd tair blynedd hon a ariennir, gan adrodd ar gyflawniadau ac effaith drwy'r Athro Addysg Seiliedig ar Efelychu a strwythurau adrodd perthnasol y CCC.
	6. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eich holl arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chydweithredol.
	7. Cyflawni'r rôl a'r holl weithgareddau yn unol â pholisïau a systemau rheoli diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o'r gweithgarwch gwaith.
	8. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.
	9. Unrhyw ddyletswyddau eraill y cytunir arnynt gan y Gyfadrn / Gyfarwyddiaeth / Maes Gwasanaeth.
Mae gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd yn ofynnol a rhaid i hwn gael ei dderbyn a'i asesu cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau	

Meini Prawf y Fanyleb Person:	Tystiolaeth nodweddiadol:
Cymwysterau	
1. Gradd mewn disgyblaeth glinigol, gofal iechyd neu ddisgyblaeth berthnasol, ynghyd â gradd Meistr berthnasol mewn addysg feddygol/proffesiynau iechyd, efelychu, addysg neu faes cysylltiedig, a phrofiad proffesiynol perthnasol sylweddol.	<i>Tystysgrifau gradd a gradd Meistr.</i> Tystiolaeth o brofiad proffesiynol perthnasol sylweddol. Cofrestriad clinigol proffesiynol cyffredol y mae'n rhaid ei gynnal drwy gydol cyfnod y swydd.
2. Cofrestriad cyffredol fel ymarferydd gofal iechyd proffesiynol gyda'r NMC, y GMC neu'r HCPC.	
3. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig sy'n arwain at Gymrodoriaeth Advance HE (neu gymhwyster addysgu uwch cyfatebol).	<i>Tystysgrif cymhwyster addysgu berthnasol.</i> <i>Cymrodoriaeth o'r AAU neu gymhwyster cyfwerth, neu gymhwyster addysgu cydnabyddedig arall.</i>
Addysg	
4. Gwybodaeth a Gwerthoedd Proffesiynol.	<i>Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus a'i gymhwyso i wella ymarfer addysgol a'ch datblygiad fel addysgwr.</i>
5. Datblygu'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu.	<i>Gweithgareddau sy'n arwain at welliannau amlwg i'r cwricwlwm, gwelliannau i'r amgylchedd dysgu neu greu gweithgareddau sy'n datblygu unigolion a grwpiau amrywiol o ddysgwyr.</i>
6. Cymorth i ddysgwyr, cymuned ac effaith.	<i>Enghreifftiau o wella cymorth i ddysgwyr, datblygu cymunedau dysgu a gwella ymdeimlad myfyrwyr o berthyn, gyda thystiolaeth o effaith.</i>
7. Dylanwad ar gymunedau academiaidd/dysgwyr ehangach.	<i>Tystiolaeth o ddylanwad cadarnhaol ar gydweithwyr a'r gymuned academiaidd ehangach er mwyn gwella profiad addysgol myfyrwyr.</i>
Ymchwil	
8. Cyfraniad at gynhyrchu gwybodaeth.	<i>Cyfraniadau amlwg at gynhyrchu gwybodaeth a syniadau, sut mae'r rhain wedi cael eu cyfleu ac unrhyw gyllid neu wobrau sy'n cydnabod y gweithgarwch hwn.</i>
9. Cyfraniad at ddatblygu unigolion.	<i>Amlygu sut y darparwyd arbenigedd i dimau, ymchwilwyr unigol a staff yn yr ecosystem ymchwil ac arloesi er mwyn cefnogi eu datblygiad.</i>
10. Cyfraniad at y gymuned ymchwil ac arloesi ehangach.	<i>Datblygu'r gymuned ymchwil ac arloesi drwy weithgareddau ar draws disgyblaethau, sefydliadau a/neu wledydd.</i>

11. Cyfraniad at gymdeithas ehangach.	<i>Cyfnewid gwybodaeth â rhanddeiliaid perthnasol gyda thystiolaeth amlwg o effaith.</i>
Arloesi, Ymgysylltu a Menter	
12. Canlyniadau ac effaith.	<i>Cyflawni canlyniadau ac effaith amlwg sy'n ychwanegu gwerth drwy greu a/neu drosi syniadau, dulliau, cynhyrchion, gwasanaethau neu atebion, er enghraifft i fusnes, llywodraeth, iechyd a lles, yr amgylchedd, cymdeithas a bywyd diwylliannol yn fewnol ac yn allanol.</i>
13. Prosiectau a Gweithgareddau.	<i>Dylunio, cynllunio, trefnu, rheoli a chyflawni gweithgareddau prosiect arloesol yn llwyddiannus, gan gynnwys sicrhau'r adnoddau mewnol ac allanol angenrheidiol gan noddwyr i gynnal prosiectau a'u gweithgareddau.</i>
14. Cyfathrebu a Phartneriaethau.	<i>Tystiolaeth o sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu o safon uchel ar draws grwpiau staff a myfyrwyr y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd.</i> Tystiolaeth o gyfathrebu mewnol ac allanol cynhyrchiol ac o ddatblygu partneriaethau ystyrlon â rhanddeiliaid allanol. Tystiolaeth o brofiad o fentora clinigol ac addysgol.
Cydweithrediad, Arweinyddiaeth, Rheoli a Gwasanaeth	
15. Cydweithrediad/Gwasanaeth.	<i>Darparwch enghreifftiau myfyriol o sut rydych wedi dangos dinasyddiaeth barhaus ac wedi cyfrannu'n gyson yn ystod cyfnod eich penodiad. Darparwch dystiolaeth o effaith sy'n briodol i'r lefel.</i>
16. Datblygu, Mentora a Rheoli Eraill.	<i>Rheoli a datblygu eraill, a all gynnwys mentora, rheoli llinell neu reoli grwpiau ac unedau.</i>
17. Arwain yn y Brifysgol.	<i>Cyfranogiad ac arweinyddiaeth y tu mewn i'r Brifysgol, a all ymwneud â phortffolio penodol neu gyfrifoldeb am feysydd gweithgarwch cyfan.</i>
Penodol i'r Pwnc	
18. Cofrestriad proffesiynol cyfredol ym maes meddygaeth neu ofal iechyd (y GMC, yr NMC, yr HCPC neu gorff cyfatebol perthnasol). 19. Gwybodaeth amlwg am amrywiaeth o ddulliau efelychu allweddol, gan gynnwys efelychu sy'n defnyddio modelau, cleifion wedi'u hefelychu/safoni, gemio a hyfforddiant realiti rhithwir a mathau hybrid o efelychu. 20. Tystiolaeth o roi ymchwil glinigol, addysgol neu ymchwil addysg seiliedig ar efelychu ar waith, a phrosiectau arloesol. 21. Gwybodaeth amlwg am egwyddorion a dulliau darparu addysg efelychu neu brosiectau gwella ansawdd. 22. Profiad amlwg ar lefel uwch mewn addysg glinigol. 23. Medrus mewn ymagweddau addysgeg efelychu ac yn gallu addysgu'r egwyddorion allweddol hyn i eraill.	Tystiolaeth o gofrestrriad proffesiynol cyfredol. <i>Tystiolaeth o gofrestrriad cyfredol gyda'r GMC, yr NMC neu'r HCPC.</i> <i>Gwybodaeth am ofynion safonau AaGIC a gofynion achredu ASPIH ar gyfer addysg seiliedig ar efelychu sy'n cydymffurfio â'r safonau clinigol uchaf, y mae ei hansawdd wedi'i sicrhau ac sy'n cyflawni rhagoriaeth addysgeol.</i> <i>Gwybodaeth am brosiectau perthnasol sydd wedi'u cwblhau a'u gwerthuso a'u heffeithiau, gyda ffocws ar addysg, a/neu efelychu, a/neu raglenni gwella ansawdd/efelychu trosiadol.</i>

24. Yn gallu darparu mentora parhaus a datblygiad staff efelychu er mwyn cefnogi staff i integreiddio dysgu seiliedig ar efelychu yn eu rhaglenni.
25. Cyd-gynhyrchu deunyddiau yn Gymraeg ac yn Saesneg a sicrhau bod gweithgareddau a deunyddiau'n gyson â'r Cynnig Rhagweithiol, yn seiliedig ar gynllun gwaith efelychu tair blynedd.
26. Yn integreiddio safonau achredu efelychu cenedlaethol ym mhob rhaglen waith.
27. Yn gallu cwblhau archwiliadau rhaglenni i sicrhau bod addysg efelychu drwy gydol y system yn cydymffurfio â gofynion achredu addysg sy'n seiliedig ar efelychu.
28. Yn dangos ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth gyflwyno rhaglenni addysg seiliedig ar efelychu.

Y Gymraeg

Lefel 3 – 'rhugl' – gallu cynnal sgwrs rugl yn Gymraeg ar faterion sy'n ymwneud â'r gwaith. Gallu ysgrifennu deunydd Cymraeg gwreiddiol yn hyderus. Mae'r lefel hon yn hanfodol ar adeg penodi.

Cais a gyflwynir yn Gymraeg.

I gael rhagor o wybodaeth am Lefelau'r Gymraeg, cyfeiriwch at dudalen we Asesiad Sgiliau'r Gymraeg, sydd ar gael [yma](#).

Rhaid gallu cynnal sgwrs rugl yn Gymraeg ar faterion sy'n ymwneud â'r gwaith; cynllunio a hwyluso addysg seiliedig ar efelychu drwy gyfrwng y Gymraeg; cynnal ôl-drafodaethau; a llunio deunyddiau Cymraeg gwreiddiol, cywir a hyderus.

